

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12fed Fehefin 2017

Presennol - Gwawr Jones, Cadeirydd, Terry Bullock, Siân Godbert, Nick Corney, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau Gareth Wynne, Marion Bettenev, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts

Datgan diddordeb - Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Terry Bullock yng nghofnod 2.5 [a] a ni chymerodd ran pan gafodd y mater ei drafod.

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8fed Fai 2017.

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Tybiau Cae Llan/ Pont-y-Pair / A5 Gwesty'r Waterloo

Dywedodd y clerc bod tybiau newydd wedi eu gosod yng Nghae Llan a Phont-y-Pair, a mainc newydd wedi ei harchebu ar gyfer glan yr afon ym Mhont-y-Pair, ynghyd a bocs ar gyfer planhigion wrth yr A5 gyferbyn a'r Waterloo.

[1.2] Creu Mynedfa Newydd i'r Neuadd Goffa

Dywedodd y clerc bod hysbysiad cyhoeddus wedi ei drefnu yn gwahodd diddordeb. Dyddiad cau 28ain Fehefin 2017.

[1.3] Llwybr Cyhoeddus Pont y Mwynwyr

Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi cytuno i lanhau'r llwybr

[1.4] Arwyddion 20 m.y.a. Ffordd yr A5 Pentre' Du

Dywedodd y clerc iddo dderbyn neges fel a ganlyn oddiwrth yr Asiant Priffyrdd trwy law'r Cyng. Elisabeth Roberts:

Nid yw'n bosib i'r arwyddion arddangos 40 m.y.a. yn barhaol gan y byddai hyn yn creu penbleth i fodurwyr a chreu trafferthion i'r heddlu wrth geisio gorfodi'r rheol. Deallwyd bod y mater i gael ei drafod ymhellach gyda'r Asiant Briffyrdd.

[1.5] Tai Fforddiadwy

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Marciau Ffordd ar gyfer Arhosfa Bws/ A5 Pentre' Du

Y clerc i ddilyn y mater ymlaen.

[1.7] Sedd Wag y Cyngor

Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

Y brif Agenda

[1.8] Ceisiadau Cynllunio

[a] Cais ôl-weithredol i gadw peiriant ATM, Tŷ Pont-y-Pair, Betws-y-Coed.

[b] Lleoli sguor goed yn dymhorol [Tachwedd - Chwefror] Gwesty'r Royal Oak, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[1.9] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddisbarthwyd) a wnaed yn ystod mis Mai 2017.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddisbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mai 2017.

[2] Lleoliad ar Gyfer Hen Giosg Coch BT

Penderfynwyd ceisio caniatâd Ystâd Gwydr i osod y ciosg ar ymyl y llwybr yng Nghae Llan.

[2.1] Pentref y Flwyddyn

Dywedodd y clerc i Sarah Ferguson Cymdeithas Twristiaeth BYC gytuno i gyflwyno cais a bod ymweliad i gael golwg ar y pentref ar y gweill.

[2.2] Newid Dynodiad Strydoedd Gwaharddedig

Nodwyd y wybodaeth ganlynol oddiwrth Cyngor BS Conwy i newid dynodiad y strydoedd canlynol ar gyfer masnachu

[a] Ffordd Craiglan [b] Teras Dolydd, Pentre' Du.

[2.3] Caglu Arian o Wely'r Afon/Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y clerc fod dau berson wedi cael eu darganfod yn casglu arian o wely'r afon a'i fod wedi gwneud datganiad i'r heddlu ar gyfer erlyniad. Cytunodd y Cyng. Siân Godbert i wneud ymholiadau ym Mlas y Brenin tybed a fyddai rhywun yn barod i gasglu'r arian er mwyn eu trosglwyddo i elusen.

[2.4] Adnewyddu Biniau Cwn

Nodwyd cyfeirnod rhif 26036 ar gyfer biniau newydd.

[2.5] Cwynion

Dywedodd y clerc iddo anfon y cwynion canlynol ymlaen i'r Cyngor Sir;

[a] Gulis wedi tagu ar yr A5 yn y pentre' [b] Canghennau yn tyfu dros balmant yr A5 yn y pentre' [c] Palmant ar yr A5 o'r groesfan [ochr Cae Llan] i gyfeiriad y Royal Oak angen eu lanhau.

[2.6]] Nodwyd y wybodaeth ganlynol:

[a] Llythyr o ddiolch oddiwrth Ysgol Betws-y-Coed am gyfraniad ariannol.

[b] Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy.

[c] Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, Ymgyngoriad

[d] Cynigion Zip World ar gyfer Llanrwst

[e] APCE. Cynnig Coed Afalau i'w plannu'n lleol

Gwawr Jones Cadeirydd